

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022

<b>YN BRESENNOL:</b>	Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-Gadeirydd)  Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr (eitem 4 yn unig), Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth dros dro (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (eitem 4 yn unig), Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Adnoddau Dynol (NH), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dim
<b>HEFYD YN BRESENNOL</b>	Dim

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd K P Hughes ddatgan diddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, yn dilyn cyngor cyfreithiol dywedodd nad oedd yr ymgeisydd yn gyswllt personol agos iddo ac felly roedd yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr, 2021 yn gywir.

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

#### PENDERFYNWYD:-

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, PENDERFYNWYD cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”**

### 4 APWYNTIO STAFF

#### Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi cael ei hysbysebu rhwng 17eg Rhagfyr, 2021 a 14eg Ionawr 2022 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 22ain Tachwedd, 2021. Adroddodd bod dau Swyddog AD wedi llunio rhestr fer ar sail wrthrychol, ac argymhellir bod y Pwyllgor yn cadarnhau pa ymgeiswyr fydd yn cael eu cyfwrdd.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor Penodiadau'n dilyn yr un broses dri cham a ddilynwyd yn achos yr uwch benodiadau diweddar, sef:-

- Cyfweiliad proffesiynol i'w gynnal rhwng y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro dros dro neu eilydd addas a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid;
- Cyfweiliad allanol yn seiliedig ar broses brofi seicometreg gyda Gatenby Sanderson ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer;
- Cyfweiliad ffurfiol â'r Pwyllgor Penodiadau ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer a phenderfynu pwy fydd yn cael ei ddedhol ar ôl ystyried adroddiad llafar ar y cyfweiliadau proffesiynol a'r profion seicometreg.

**PENDERFYNWYD cefnogi argymhellion y Swyddog a dilyn proses dri cham fel yr amlinellir uchod.**

## **5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, PENDERFYNWYD cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”**

## **6 APWYNTIO STAFF**

**Dirprwy Brif Weithredwr**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

Adroddodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod y swydd Dirprwy bellach yn wag ac angen ei llenwi yn dilyn penodi'r Dirprwy Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD:-**

- Hysbysebu'r swydd Dirprwy Brif Weithredwr yn allanol;
- Bod y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person yn unol ag Atodiad 1 yn yr adroddiad;
- Hysbysebu cyflog y swydd yn unol â'r cyflog presennol sef £99,565 y flwyddyn gyda'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2021 a 2022 yn cael ei ychwanegu unwaith y caiff ei gytuno;
- Hysbysebu'r swydd am gyfnod o dair wythnos yn olynol;
- Hysbysebu'r swydd yn unol â pholisi arferol y Cyngor ar gyfer swyddi Prif Swyddogion, sef drwy wefan yr Awdurdod, micro wefan ddynodedig, ynghyd â phlatformau cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys gwefan lleol.cymru, papur newydd The Guardian, Golwg a hysbysebu drwy CLILC, yn ogystal â hysbysu'r pum brif cyngor yng Ngogledd Cymru;
- Bod dau swyddog o'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn mynd ati i lunio rhestr fer ar sail wrthrychol, wedi i'r cyfnod hysbysebu ddod i ben,;
- Bod y Pwyllgor, yn dilyn cwblhau'r broses llunio rhestr fer, yn cael ei alw i gymeradwyo'r ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ac unrhyw gamau pellach angenrheidiol yn y broses ddedhol. Bydd rhaid i'r Cyngor llawn gefnogi'r penodiad terfynol.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS  
CADEIRYDD**